

**Cartrefi
Cymunedol
Cymru**



Adroddiad Cynnydd Chwarterol: Cynllun Corfforaethol 2019–2022

Mawrth – Mehefin 2019



Stuart Ropke

Prif Weithredydd

stuart-ropke@chcymru.org.uk

02920 674 800 | @stuart_CHC

Croeso

Dyma adroddiad cynnydd cyntaf 2019/2020.

Gan ein bod yn nhri mis cyntaf ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2019-2022, rydym yn awyddus iawn i ddangos ein cynnydd ar y materion y gwnaethoch ddweud wrthym sy'n bwysig i chi. Bu'r Adolygiad o Dai Fforddiadwy yn faes sylweddol o waith i ni, ac edrychwn ymlaen at weld ymateb y Gweinidog i'r argymhellion ar 9 Gorffennaf.

Rydym wedi parhau i lobio a dylanwadu ar eich rhan, a chaiff adroddiad llawn ar y cyfryngau sy'n dangos sut y buom yn dylanwadu ar agenda'r cyfryngau hefyd ei gynnwys yn yr adroddiad yma.

Rydym yma i'ch cefnogi i fod yn wych, ac i gyflawni ein gweledigaeth i wneud cartref da yn hawl sylfaenol i bawb. I'ch helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol, rydym wedi treulio amser yn ystod y chwarter hwn yn cynllunio ein cynadleddau poblogaidd yn cynnwys Adnoddau Dynol a Dysgu & Datblygu, y Gynhadledd Flynyddol a'r Gynhadledd Fawr. Buom hefyd yn datblygu Alcemi, cyfres o weithdai trawsnewid busnes.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau ar yr wybodaeth yn yr adroddiad cynnydd yma. Yn y cyfamser byddwn yn parhau i ddylanwadu, cysylltu, cefnogi a hysbysu - fel y gallwch chi barhau i fuddsoddi mewn cymunedau a gwella bywydau.

Diolch,

Cipolwg ar Fawrth - Mehefin 2019



Buom yn gweithio'n agos gydag aelodau i ddylanwadu ar argymhellion yr **Adolygiad o Dai Fforddiadwy** cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol ym mis Mai.

- » Fe wnaethom lansio adroddiad gydag lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu, sy'n dangos fod tai ansawdd isel yn costio mwy na £95m y flwyddyn mewn costau triniaeth i'r GIG yng Nghymru.
- » Gwnaed cynnydd sylweddol tuag at sicrhau ein chwe gofyniad ar gyfer y Credyd Cynhwysol. Ym mis Ebrill, cynyddodd lwfansau gwaith Credyd Cynhwysol gan £1,000, gan olygu gwella sefyllfa pobl mewn gwaith sydd â phlant neu allu cyfyngedig ar gyfer gwaith (neu eu partneriaid).

» Buom yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gynllunio'r canllawiau a'r fframwaith ar gyfer y Grant Cymorth Tai newydd, fydd yn disodli Cefnogi Pobl a rhai elfennau o gyllid atal digartrefedd o fis Ebrill 2020.



Fe wnaethom lansio **Cynllun Prif Awdurdod Tân** gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ac mae 21 aelod eisoes wedi ymuno.

- » Lanswyd ymgynghoriad ar y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu diwygiedig a byddwn yn gweithio gydag aelodau wrth i ni baratoi ymateb ar ran y sector.
- » Fe wnaethom gynnal chwe chwrs hyfforddiant llwyddiannus a chynllunio tair cynhadledd yn cynnwys ein Cynhadledd Carbon Isel gyntaf.



Cafodd Swyddi Tai Cymru, partneriaeth rhwng Charity Job Finder a CHC, ddechrau llwyddiannus gyda 50% o aelodau'n hysbysebu swyddi yn ystod y cyfnod prawf am ddim.

- » Cynhaliwyd etholiadau ar gyfer swyddi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ein Grwpiau Cyflenwi Strategol newydd. Cynhaliodd pob grŵp eu cyfarfod cyntaf a thrafod blaenoriaethau ar gyfer eu cynllun gwaith yn unol â'n **Cynllun Corfforaethol newydd (2019-2022)**.
- » Ymunodd tri aelod newydd o staff, Terryanne O'Connell, Angharad Young a Josh Rousen, â'r tîm.

Themâu:

- 1 Dylanwadu ar amgylchedd gweithredu ein haelodau
- 2 Paratoi aelodau ar gyfer y dyfodol
- 3 Rhedeg sefydliad gwyb i aelodau
- 4 Dweud stori ein sector

Yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy 1 2

Mae ein gwaith ar yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy wedi parhau'n gyson dros y tri mis diwethaf. Drwy gydol mis Ebrill buom yn gweithio'n agos gydag aelodau i ddylanwadu ar argymhellion terfynol yr Adolygiad cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol ym mis Mai.

Mae'r adroddiad terfynol yn gwneud 22 argymhelliad allweddol, ynghyd â nifer o argymhellion mwy manwl a sylwadau ar ddarparu tai fforddiadwy, ac mae ein gwaith ers hynny wedi canolbwyntio ar ddylanwadu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hyn.

Bydd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn ymateb i argymhellion y panel mewn datganiad i'r Senedd ar 9 Gorffennaf.

Gallwch ddarllen ein papur gwybodaeth manwl ar yr Adolygiad [yma](#).



Aaron Hill
Rheolydd Materion
Cyhoeddus

aaron-hill@chcymru.org.uk
02920 674 820 | @aaronhc

Credyd Cynhwysol 1 2

Cafodd un o'n Chwe Gofyniad ar y Credyd Cynhwysol ei weithredu ym mis Ebrill. Cynyddodd y lwfansau gwaith ar gyfer aelwydydd gyda phlant a hawlwyd neu bartneriaid sydd â galluedd cyfyngedig ar gyfer gwaith gan £1,000 y flwyddyn, gan wella'r system ar gyfer y rhai mewn gwaith. Fodd bynnag, mae Credyd Cynhwysol yn parhau'n anaddas i'r diben, gan barhau i arwain at ddyblu mewn ôl-ddyledion rhent cyfartalog ar gyfer tenantiaid o gymharu â Budd-dal Tai.

Gwnaed cynnydd sylweddol ar sicrhau gofynion eraill, yn cynnwys rhannu data rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a chymdeithasau tai yn ystod ymfudo a reolir. Cawsom nifer o gyfarfodydd cadarnhaol gyda swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau y chwarter hwn, ac edrychwn ymlaen at fonitro ymfudo â reolir yn ystod y cynllun peilot sydd ar y gweill yn Harrogate o fis Gorffennaf.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar faterion ehangach diwygio llesiant, yn cynnwys rhewi budd-daliadau, ac wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gydag Aelodau Seneddol o'r llywodraeth a'r gwrthbleidiau i gyflwyno'r angen i ddod â'r rhewi i ben ym mis Ebrill 2020, ac i fudd-daliadau ddal lan gyda'r cynnydd mewn chwyddiant a chyflogau.

Tu allan i'n gwaith i wella polisi llesiant, y chwarter hwn rydym wedi cefnogi aelodau gyda'r diffyg rhent a gaiff ei greu oherwydd anallu'r Credyd Cynhwysol i addasu i flwyddyn rent 53 wythnos.

Rydym yn falch i fod wedi sicrhau ymrwymiad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i asesu'r cyfrifiadau a ddefnyddiwyd i drosi costau wythnosol i'r taliad

misol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, ac yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i sicrhau cefnogaeth ar gyfer tenantiaid yr effeithir arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Tai â Chymorth 1 2

Mae newid sylweddol mewn tai â chymorth, gyda dulliau newydd o gefnogaeth yn ei le megis Tai yn Gyntaf i fynd i'r afael â digartrefedd a thechnoleg newydd i helpu pobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain. Buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynllunio'r canllawiau a'r fframwaith ar gyfer y Grant Cymorth Tai newydd, fydd yn disodli Cefnogi Pobl a rhai elfennau o gyllid atal digartrefedd o fis Ebrill 2020.

Cynhaliwyd nifer fawr o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod y chwarter, yn ogystal â dylanwad CHC ar grŵp llywio Llywodraeth Cymru, yn arwain at ddrafft gynigion sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar gefnogaeth sy'n canolbwyntio ar y person ac atal digartrefedd. Gallai'r newidiadau hyn agor cyllid cynyddol ar gyfer cefnogaeth tenantiaeth a chyn-tenantiaeth, gan arwain at well cynnal tenantiaethau.

Rheolaeth Tai 1 2

Roedd rheolaeth tai yn flaenoriaeth allweddol i ni y chwarter hwn, gyda lansio Grŵp Cyflenwi Strategol newydd Rheolaeth Tai. Bydd y Grŵp hwn yn canolbwyntio ar faterion y sector yn cynnwys fforddiadwyedd, cynnal tenantiaeth a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru).

Yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp trafodwyd materion yn cynnwys gostwng nifer achosion dadfeddiannu a diwygio llwybrau i ddadfeddiannu. Roedd hyn yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Ebrill am fwriad Llywodraeth Cymru i ddod â dadfeddiannu dim bai i ben yn y sector rhent preifat, gan effeithio ar y defnydd o denantiaethau AST gan gymdeithasau tai.

Datblygodd y Grŵp gynigion i ostwng nifer achosion dadfeddiannu, atal dadfeddiannu rhag troi'n ddigartrefedd a chreu model tenantiaeth fyddai'n addas i'r dyfodol. Mae CHC yn symud ymlaen ar hyn gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i sicrhau fod gan gymdeithasau tai adnoddau da i gynyddu cynnal tenantiaeth ymhellach, tra'n sicrhau system tenantiaeth sy'n galluogi'r sector i gadw eu cymunedau'n ddiogel.



Will Atkinson

Rheolydd Polisi a Rhaglenni

will-atkinson@chcymru.org.uk

02920 674 815 | @willa_chc

Adeiladu a Diogelwch Tenantiaid 1 2 3

Yn dilyn lansiad argymhellion Grŵp Arbenigol Diogelwch Adeiladu Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth, buom yn gweithio'n galed i dynnu sylw at waith ardderchog cymdeithasau tai i gadw eu tenantiaid yn ddiogel. Gan symud ymlaen ar hyn, rydym wedi parhau i weithio tuag at gynnig tryloywder diogelwch, a gyd-gynhyrchwyd rhwng cymdeithasau tai a Llywodraeth Cymru, fydd yn cadarnhau ymhellach le blaenllaw'r sector mewn diogelwch tenantiaid.

Rydym wedi parhau i gefnogi aelodau i ymateb i wybodaeth newydd am ddiogelwch eu hadeiladau, gan sicrhau cyfathrebu cadarn rhwng cymdeithasau tai, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Fe wnaethom lansio ein partneriaeth gydlynus Cynllun Prif Awdurdod Tân gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, sy'n rhoi gwasanaeth pellach i aelodau fel rhan o Gynnig Aelodau 2019/20. Cynhelir cyfarfod cyntaf y gweithgor yn y dyfodol agos ac mae 21 o aelodau ledled Cymru wedi ymuno â'r Cynllun hyd yma. Bydd CHC yn parhau i weithio'n agos gydag aelodau ag Awdurdod Tân ac Achub De Cymru i wella cysondeb ac eglurdeb mewn cyngor ar ddiogelwch tân.

Cynllunio, Datblygu ac Ôl-osod 1 2

Disgwyliwn ymateb Llywodraeth Cymru yn dilyn ymgynghoriad a edrychodd ar ofynion tai Cynlluniau Datblygu Lleol. Rydym hefyd yn disgwyl sylwadau gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru a ganfu'n ddiweddar fod systemau cymhleth a diffyg adnoddau yn cyfyngu ar effeithlonrwydd gwasanaethau cynllunio awdurdodau lleol. Mae Gweithgor CHC/ POSW yn parhau i ymchwilio ffyrdd i wella gweithio rhwng cymdeithasau tai ac awdurdodau cynllunio lleol. Lansiwyd ymgynghoriad ar y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu diwygiedig, a byddwn yn gweithio gydag aelodau wrth i ni baratoi ymateb y sector. Disgwylir ymgynghoriad ar y drafft Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hefyd eleni.

Yn dilyn argymhellion yn yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth ar Ddulliau Modern o Adeiladu. Mae gan y Strategaeth oblygiadau ar gyfer gwaith tu hwnt i'r Rhaglen Tai Arloesol gyfredol ac mae CHC yn cysylltu gydag aelodau ar draws y sector i lywio'r Strategaeth.

Bydd grŵp ymgynghorol annibynnol yn cyhoeddi eu hadroddiad yn y dyfodol agos ar ôl-osod datgarboneiddo preswyl. Caiff argymhellion a'r ymchwil sylfaenol ei ymchwilio yng [Nghynhadledd Carbon Isel](#) CHC ar 18 Gorffennaf. Bydd argymhellion yn rhoi sylw i agweddau fel safonau effeithiolrwydd ynni, parhad Safonau Ansawdd Tai Cymru a rôl tenantiaid. Bu CHC yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r sector, fel rhan o'r grŵp a hefyd tu allan iddo, i sicrhau bod yr argymhellion yn adlewyrchu barn ein haelodau. Bydd mwy o gyfleoedd ymgysylltu yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiad.



Sarah Scotcher
Swyddog Polisi

sarah-scotcher@chcymru.org.uk
02920 674 802 | [@sarah_chc](https://twitter.com/sarah_chc)

Cynadleddau a Digwyddiadau 2 3

Efallai i chi sylwi y bu ychydig yn dawel yn y maes digwyddiadau yma yn CHC - ond gallaf eich sicrhau na chefais fy herwgipio nac ychwaith wedi bod yn bolaheulo ar ynys drofannol! Bûm yn datblygu Alcemi, ein cyfres o weithdai trawsnewid busnes a gaiff ei lansio ym mis Medi. Mae mwy o wybodaeth ar Alcemi ar gael [yma](#).

Rwyf hefyd wedi bod yn llunio rhaglen ddeinamig ar gyfer ein **Cynhadledd Adnoddau Dynol a Dysgu & Datblygu a gynhelir yng Ngwesty'r Marriott, Caerdydd ar 26 Medi**. Thema cynhadledd eleni yw 'Mae'r cyfan am ein pobl' ac rydym wedi ymgynnull ystod o siaradwyr o sefydliadau y tu allan i'r sector tai i rannu eu profiad o weithredu cynlluniau i fynd i'r afael â'r newid yn natur busnes a sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

[Cliciwch yma i weld y rhaglen lawn a sicrhau eich lle.](#)

Mae amser yn dal i fod i archebu lle yng **Nghynhadledd Cyllid CHC** a gynhelir yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod ar 11/12 Gorffennaf. Mae'r sesiynau yn cynnwys:

- » Trevor Williams, cyn Brif Economegydd Bancio Masnachol Banc Lloyds, fydd yn rhoi ei sylwadau ar y darlun economaidd ar draws y Deyrnas Unedig ac yn ceisio dehongli yr hyn y bydd gadael Ewrop yn ei olygu i'r Deyrnas Unedig a Chymru.
- » Rhodri ab Owen, Pennaeth Monitro Positif, fydd yn rhoi ei sylwadau ar y tirlun gwleidyddol presennol ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig, gan edrych ar chwe mis cyntaf Prif Weinidog Cymru yn ei swydd a beth sydd ar y gorwel ar gyfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.
- » Lyn Pamment, Cadeirydd Panel yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy, fydd yn amlinellu canfyddiadau allweddol yr adroddiad a'i effaith ar y sector tai cymdeithasol yng Nghymru.
- » Sam Coniff, entrepreneur cymdeithasol diben-draw ac enillydd nifer fawr o wobrau, fydd yn llywio cynrychiolwyr drwy oroesi ymyrraeth gweithle.

[Cliciwch yma i weld y rhaglen lawn a sicrhau eich lle drwy glicio yma.](#)

Mae lleoedd yn dal i fod ar gael yn ein **Cynhadledd Carbon Isel** a gynhelir yng Ngwesty'r Copthorne, Caerdydd. Diben y gynhadledd yw trafod ac ymchwilio'r cyfeiriad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, rhoi cyfle i'r sector rannu arfer gorau a helpu cymdeithasau tai i ddatblygu eu syniadau a gweithredu - lle bynnag maent arni yn y broses o ddatgarboneiddio.

[Cliciwch yma i archebu eich lle.](#) Mae rhaglen lawn o siaradwyr a sesiynau ar gael [yma](#).

Mae'r cynllunio yn mynd rhagddo ar gyfer ein [Cynhadledd Adnoddau Dynol a Dysgu & Datblygu boblogaidd, Y Gynhadledd Tai Fawr \(10/11 Hydref\) a'r Gynhadledd Flynyddol \(21/22 Tachwedd\)](#). [Archebwch le nawr yn y Gynhadledd Tai Fawr a'r Gynhadledd Adnoddau Dysgu](#)) a chadw llygad am y rhaglenni fydd yn cyrraedd yn eich mewnflwch yn ystod yr haf.



Rhian Robinson
Swyddog Digwyddiadau
a Busnes

rhian-robinson@chcymru.org.uk
02920 674 814

Hyfforddiant 2 3

Bu'n chwarter prysur cyntaf yn cyflwyno ein hyfforddiant ymatebol. Rydym yn falch iawn fod ein haelodau yn dod atom gydag awgrymiadau am hyfforddiant ac oherwydd hyn gallwn roi sylw i amrywiaeth eang o bynciau. Yn ystod y tri mis diwethaf rydym wedi cynnal cyrsiau ar:

- » Cyflwyniad i'r Sector Tai
- » Credyd Cynhwysol ar Waith
- » Credyd Cynhwysol: Y Meysydd Problem
- » Hyfforddiant Podlediad
- » Dadfeddiannu Tenantiaid heb Denantiaethau Diogel
- » Taliadau Gwasanaeth

Yn dilyn lansiad ein cyfres hyfforddiant newydd ar Lywodraethiant, rhoddodd yr hyfforddydd Deborah Walthorne gwrs llwyddiannus cyntaf ar Lywodraethu'n Dda. Roeddem yn falch i gael adborth rhagorol gan gynrychiolwyr a fynychodd o Clwyd Alyn, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Cartrefi Cymunedol Cynon Taf, Tai Tarian a Trivallis. Clywch beth oedd gan Fran Bevan, Cadeirydd Cartrefi Cymunedol Cynon Taf, i'w ddweud am ei phrofiad [yma](#).

Rydym yn edrych ymlaen at gyflwyno ein dau gwrs arall: Cyflwyniad i Lywodraethiant, ar gyfer y rhai sy'n ystyried dod yn aelodau bwrdd; a Newydd i'r Bwrdd, ar gyfer rhai a fu yn y swydd am lai na 12 mis. Mae mwy o wybodaeth ar ein cyrsiau Llywodraethiant a chysiau hyfforddiant arall ar gael [yma](#).

Lesley Smith
Swyddog Dysgu a Datblygu
lesley-smith@chcymru.org.uk
02920 674 809 | [@lesley_chc](#)



Swyddi Tai Cymru 1 2 4

Fe wnaethom lansio Swyddi Tai Cymru ar 18 Mawrth mewn partneriaeth gyda Charity Job Finder. Dyma'r unig wefan yng Nghymru yn arbennig ar gyfer hysbysebu swyddi tai cymdeithasol i annog sgiliau newydd a phrofiad i'r sector.

Cafodd y wefan ddechrau gwirioneddol lwyddiannus, gyda bron 13,000 wedi'i defnyddio'n barod. Manteisiodd 50% o'n defnyddwyr ar ein cynnig i hysbysebu eu swyddi yn ystod ein cyfnod prawf am ddim, a ddaeth i ben ar 18 Mai. Yn ystod y cyfnod hwn fe wnaethom gyfeirio bron 4,000 o bobl i swyddi, gyda 2,000 yn lawrlwytho pecynnau swydd.

Rydym yn rhedeg cynnig 'prynu un cael un am ddim' ar y safle tan 1 Medi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost at Edwina ar edwina-o'hart@chcymru.org.uk.

Digwyddiadau Rhwydweithio Aelodau Bwrdd

Fe wnaethom gynnal dau ddigwyddiad rhwydweithio y chwarter hwn, a fynychwyd gan 49 aelod bwrdd o 25 sefydliad.

Clywodd y ddau ddigwyddiad gan Vanessa Walters, Rheolwr yr Adolygiad o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy yn Llywodraeth Cymru, am argymhellion yr Adolygiad annibynnol. [Trefnwyd digwyddiadau pellach ar gyfer mis Medi a mis Rhagfyr.](#)



Edwina O'Hart
Cyfarwyddyd Cynorthwyol,
Cyfathrebu a Gwasanaethau Aelodau
edwina-o'hart@chcymru.org.uk
02920 674 808 | [@edwinaohart](#)

Grwpiau Cyflenwi Strategol 1 2 3

Yn ystod y cyfnod yma fe wnaethom gynnal etholiadau ar gyfer swyddi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ein [Grwpiau Cyflenwi Strategol newydd](#).

Cynhaliodd pob grŵp eu cyfarfod cyntaf y chwarter hwn a thrafod blaenoriaethau am eu cynllun gwaith yn unol â'n Cynllun Corfforaethol (2019-2022) newydd. Gallwch weld ffilm ein Cynllun Corfforaethol [yma](#).

Am y tro cyntaf, fe wnaethom hefyd gynnig cyfle i ymuno â'r cyfarfodydd hyn yn rhithiol. Rydym yn y broses o geisio adborth gan y rhai ohonoch sy'n dewis mynychu ar-lein gyda'r nod o barhau i wella eich profiad.



Edwina O'Hart
Cyfarwyddyd Cynorthwyol,
Cyfathrebu a Gwasanaethau Aelodau
edwina-o'hart@chcymru.org.uk
02920 674 808 | [@edwinaohart](https://twitter.com/edwinaohart)

Cyfathrebu 1 2 3

Bu'n chwarter prysur i dîm cyfathrebu CHC. Mae'r gwaith wedi cynnwys cyfweiliadau gyda Serena Jones, Cyfarwyddyd Gweithrediadau Gweithredol Grŵp Tai Coastal; Cerys Furlong, Prif Weithredydd Chwarae Teg; a Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar bynciau yn cynnwys cydraddoldeb yn y gweithle a datgarboneiddio ar gyfer ein podlediad [Trafod Tai](#).

Fe wnaethom gynnal cyfnod prawf am ddim llwyddiannus ar gyfer Swyddi Tai Cymru, lansio ffilm ein [Cynllun Corfforaethol](#) a'n Cynnig i Aelodau a lansio [Alcemi](#), ein gweithdai busnes trawsnewidiol.

Roedd yn wych gweld cynifer o aelodau yn ein [Grŵp Cyflenwi Strategol Cyfathrebu a Materion Allanol](#), lle rhoddwyd cyflwyniad ar Dyma'r Sector Tai - ymgyrch yr ydym yn gweithio arni gyda'r Grŵp Cyflenwi Strategol Adnoddau Dynol i ddangos manteision gweithio mewn tai cymdeithasol, a denu mwy o bobl i'r sector. Rydym yn hynod falch i gael cynifer o wirfoddolwyr cyfathrebu i'n cefnogi!

Buom hefyd yn cefnogi tîm polisi CHC, yn arwain ar gyfathrebu ymateb ein sector i argymhellion panel yr [Adolygiad Annibynnol ar y Cyflenwad o Dai Fforddiadwy](#). Rydym yn awr yn paratoi ar gyfer ymateb y Gweinidog i'r argymhellion ar 9 Gorffennaf, lle byddwn yn cynrychioli barn ein haelodau.

Fel bob amser, rydym wedi parhau i ddylanwadu ar yr agenda newyddion yn ystod y tri mis diwethaf, gan sicrhau 28 darn o sylw ar draws cyfryngau targed print, darlledu ac ar-lein yn cynnwys ar y Credyd Cynhwysol, iechyd a datgarboneiddio. Gallwch ddarllen ein hadroddiad diweddaraf ar y cyfryngau [yma](#).



Rebecca Goodhand
Rheolydd Cyfathrebu
a Marchnata
rebecca-goodhand@chcymru.org.uk
02920 674 812 | [@rebeccag_chc](https://twitter.com/rebeccag_chc)

Crynodeb Wythnosol 1 2 3

Ein gwaith yw sicrhau eich bod yn cael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiadau perthnasol i'r sector. Un ffordd y gwnawn hyn yw drwy'r Crynodeb Wythnosol, lle rhannwn ddiweddiadau ar ein gwaith polisi, gwybodaeth am ein digwyddiadau a hyfforddiant a diweddiadau gan drydydd partïon megis Llywodraeth Cymru.

Rydym eisiau gwneud yn siŵr y caiff ein cyfathrebu ei dargedu gymaint ag sydd modd. Gallwch drin eich dewisiadau (yn cynnwys dewis iaith) drwy lenwi'r arolwg cyflym [yma](#).



Rebecca Goodhand
Rheolydd Cyfathrebu
a Marchnata

rebecca-goodhand@chcymru.org.uk
02920 674 812 | [@rebeccag_chc](https://www.instagram.com/rebeccag_chc)

Diweddiariad Staffio 3

Ymunodd tri aelod newydd o staff â'r tîm yn ystod y chwarter yma.

Joshua Rousen yw ein Swyddog Brand a Dylunio, a bydd yn arwain ar bob mater yn ymwneud â brandio a datblygu cynnwys gweledol.

Angharad Young yw ein Rheolydd Datblygu Busnes a bydd yn mynd ati i hybu a thyfu ein haelodaeth a chyfleoedd masnachol dros y misoedd i ddod, yn ogystal â goruchwyllo ein rhaglen cynadleddau, hyfforddiant a digwyddiadau.

Terryanne O'Connell yw ein Cymhorthydd Gweinyddol, ac mae'n debyg mai hi fydd y person cyntaf y byddwch yn siarad â hi neu'n ei gweld pan fyddwch yn ffonio neu ymweld â'n swyddfeydds.

Croesawyd **Hayley McNamara** yn ôl o gyfnod mamolaeth i'w swydd o Reolydd Polisi a Materion Allanol.

Rydym wrthi yn y broses o ailstrwythuro ein timau Polisi a Materion Cyhoeddus a bydd mwy o wybodaeth ar gael yn y chwarter nesaf. O ganol mis Gorffennaf bydd Aaron Hill yn cymryd swydd Pennaeth Polisi a Materion Allanol, a bydd Rhea Stevens (o'r Sefydliad Materion Cymreig) yn ymuno ag ef o fis Medi wrth iddi hi gymryd yr ail swydd Pennaeth. Bydd Will Atkinson yn ymuno â Hayley fel Rheolydd Polisi a Materion Allanol a Sarah Scotcher yn symud i rôl newydd fel Swyddog Prosiect Polisi a Materion Allanol o ganol mis Gorffennaf.



Phillipa Knowles
Cyfarwyddydd Adnoddau
a Datblygu Sefydliadol

phillipa-knowles@chcymru.org.uk
02920 674 813 | [@phillchcymru](https://www.instagram.com/phillchcymru)



www.chcymru.org.uk